Astudiaeth achos Ailgylchu yn y Gweithle: canolfan hamdden

Canolfan Hamdden Caerfyrddin

Cefndir

Mae Canolfan Hamdden Caerfyrddin yn un o 6 o gyfleusterau hamdden cyhoeddus a weithredir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Ymhlith y cyfleusterau mae pwll nofio, neuadd chwaraeon, stiwdio ffitrwydd, a chyrtiau sboncen a badminton. Dyma'r unig safle yn y Sir sydd â thrac athletau maint llawn ac mae'n un o 2 ganolfan hamdden yn Sir Gaerfyrddin sydd â chaffi.

Darlun: Canolfan Hamdden Caerfyrddin

Rhoi ailgylchu yn y gweithle ar waith

Mae'r tîm ar y safle yn awyddus i wella eu perfformiad amgylcheddol ac wedi archwilio amrywiaeth o ffyrdd o leihau'r defnydd o adnoddau ac ynni.

Mae'r ganolfan hamdden yn cael casgliadau gwastraff, ailgylchu a gwastraff bwyd gan CWM Environmental, cwmni sy'n eiddo i'r Cyngor. Creodd y gyfraith ailgylchu yn y gweithle gatalydd i adolygu arferion ar y safle, gan wella sut maent yn gwahanu eu gwastraff a'u hailgylchu trwy well seilwaith, cyfathrebu a hyfforddi staff.

> “Mae Sir Gaerfyrddin Actif wedi bod yn gweithio’n rhagweithiol ar ffyrdd o leihau ein heffaith amgylcheddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda lleihau gwastraff yn ganolog i’n huchelgeisiau. Ar ôl llwyddo eisoes i wrthdroi rhaniad 60%-40% rhwng gwastraff cyffredinol a gwastraff y gellir ei ailgylchu, mae’r ffordd newydd hon o weithio wedi rhoi’r ysgogiad inni sicrhau cynnydd pellach, ac erbyn hyn mae 70% o’r holl wastraff yn cael ei ffrydio ar gyfer ailgylchu.”
> James Levett
>
> Rheolwr Cynorthwyol

Darlun: Cyntedd y ganolfan hamdden

Mae’r ddogfen hon yn eiddo i WRAP ac ni cheir ei hatgynhyrchu na’i hailddefnyddio heb ganiatâd.

Ymateb i’r gyfraith ailgylchu yn y gweithle

Y prif newid ar gyfer y safle oedd yr angen i ddisodli ailgylchu cymysg gyda chynwysyddion ar wahân yn targedu papur mewnol ac allanol a cherdyn; plastig, cartonau a metel. Datblygwyd arwyddion newydd, yn canolbwyntio ar ddelweddau a lliwiau yn hytrach na geiriau a chafodd y compownd gwastraff allanol ei ffensio i atal y cyhoedd rhag mynd at y biniau. Paratowyd canllawiau ychwanegol ar ofynion gwahanu ar gyfer contractwyr safle, staff ac ymwelwyr.

Cynhyrchu a rheoli gwastraff

Deunydd pacio plastig yw'r brif ffrwd wastraff a gynhyrchir mewn mannau cyhoeddus o fewn yr adeilad, ynghyd â chaniau diod – o beiriannau gwerthu a'r caffi. Mae'r bin gwastraff bwyd ar wahân wedi'i leoli'n agos at allanfa staff y caffi er hwylustod.

Darlun: Bin gwastraff bwyd allanol

Gwella gwahanu yng nghyntedd y caffi

Cafodd gorsaf ailgylchu (Unisan) bresennol nad oedd ei hangen mwyach yn un o adeiladau eraill y Cyngor ei hadleoli a'i hailosod i gefnogi ailgylchu ar wahân yng nghyntedd y ganolfan hamdden. Ad-drefnwyd yr orsaf i dargedu'r prif ddeunyddiau a gynhyrchir yn y lleoliad hwn, ynghyd â gwybodaeth ategol ac eiconograffeg.

Darlun: Gorsaf ailgylchu

Ailgylchu mewn mannau awyr agored

Defnyddir mannau awyr agored gan grwpiau sy’n ymweld â chyfarfodydd athletau, pobl sy’n mynd â chŵn am dro ac ati. Mae monitro cynwysyddion allanol yn her, gyda'r prif ffocws ar ddefnyddio biniau sbwriel ailgylchu cymysg at bwrpas newydd, i dargedu cartonau plastig a metel, ochr yn ochr â biniau sbwriel cyffredinol.

Darlun: Bin ailgylchu allanol wedi’i ddefnyddio at bwrpas newydd

Mentrau cyfredol

Yn dilyn y pandemig coronafeirws mae nifer o fentrau wedi cael eu treialu yn adolygu cynnyrch a deunyddiau pacio a werthir yn y caffi. Un cam nesaf arfaethedig yw asesu ymarferoldeb dychwelyd llestri (amldro), ond mae hyn yn cael effaith ganlyniadol (casglu / golchi) ar amser staff y caffi.

Mae cynnal cyfathrebu ac annog staff a'r cyhoedd i ddefnyddio'r cyfleusterau'n gywir yn feysydd ffocws parhaus. Mae mentrau atal gwastraff pellach, megis cymhellion pris i gwsmeriaid sy'n dewis defnyddio cwpanau coffi y gellir eu hail-lenwi, yn sail i nod ehangach o leihau gwastraff cyffredinol i 10% erbyn 2030.

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU

THE BUSINESS OF RECYCLING WALES

WRAP CYMRU

Chwaraewch eich rhan mewn ffordd gylchol o fyw

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar y Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle, anfonwch e-bost atom CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

Y Busnes o Ailgylchu Cymru